

# Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



**Fersiwn gryno**



# Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru gael yr addysg orau bosibl.

Daeth adroddiad Estyn, sef Effaith Absenoldeb Athrawon, i'r casgliad bod cynnydd dysgwyr yn arafach pan mae'r athro dosbarth arferol yn absennol. Daeth hefyd i'r casgliad bod ymddygiad dysgwyr yn aml yn waeth.

Mae angen i ysgolion fod â'r staff iawn ar waith a rheoli'n dda pan mae staff yn absennol. Mae hyn yn cefnogi dysgwyr i wneud y cynnydd gorau.

Yr ysgolion sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r staff sydd eu hangen arnyn nhw. Mae eu penderfyniadau'n adlewyrchu amgylchiadau, adnoddau a blaenoriaethau unigol yr ysgol.



Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn dweud bod yn rhaid i bawb feddwl mwy am sut mae penderfyniadau'n effeithio ar y dyfodol. Mae angen i ysgolion feddwl am yr effaith hirdymor ar ddysgwyr a staff wrth reoli presenoldeb ac absenoldeb staff.

Pan mae staff addysgu i ffwrdd o'r gwaith, mae angen i ysgolion ddod o hyd i'r staff llanw iawn ar gyfer dosbarthiadau.



**Mae'r llyfryn hwn yn esbonio rolau a chyfrifoldebau ysgolion wrth reoli eu gweithlu pan mae athrawon yn absennol.**

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer:

- prifathrawon a staff sy'n gwneud trefniadau llanw pan mae athrawon yn absennol
- cyrff llywodraethu
- awdurdodau lleol
- y consortia rhanbarthol sy'n gweithio i wella'r ysgolion yn eu hardaloedd
- asiantaethau cyflenwi masnachol.

## Deall absenoldeb y gweithlu

Mae absenoldeb athrawon yn gallu cael effaith fawr ar ddysgwyr. Felly mae angen i ysgolion reoli hyn yn dda.

Mae rhywfaint o absenoldeb yn anochel.



### **Absenoldebau heb eu cynllunio.**

Does neb yn gwybod am y rhain ymlaen llaw. Mae'n gallu bod yn anodd eu rheoli, yn enwedig gwneud yn siŵr bod y staff llanw iawn ar gael i barhau â'r addysgu a'r dysgu.



### **Absenoldebau wedi'u cynllunio.**

Mae pobl yn gwybod am y rhain ymlaen llaw. Mae hyn yn rhoi amser i'r ysgol ddod o hyd i'r staff llanw iawn a gwneud yn siŵr bod yr athrawon cyflenwi'n cael popeth sydd ei angen arnyn nhw i gefnogi dysgwyr. Mae absenoldeb o'r math hwn yn cynnwys absenoldeb ar gyfer dysgu proffesiynol.

Mae'n bwysig bod gan ysgolion bolisiâu a systemau ar waith i sicrhau nad yw absenoldeb yn cael unrhyw effeithiau negyddol.

Dylai ysgolion fod â systemau ar waith i fonitro absenoldebau sydd wedi'u cynllunio ac sydd heb eu cynllunio. Fe ddylen nhw allu defnyddio'r data hyn i reoli a chwtogi ar absenoldeb lle bo hynny'n bosibl. Mae angen iddyn nhw fod â pholisi trefniadau llanw ar waith i ddelio â phob absenoldeb rhagweladwy.

## Cwtogi ar absenoldebau

Mae angen i ysgolion fesur a monitro absenoldeb. Fe ddylen nhw:

- edrych ar batrymau
- edrych ar y pethau sy'n ei achosi
- edrych ar gyfraddau absenoldeb mewn ysgolion tebyg
- dysgu o ysgolion eraill
- cefnogi eu staff
- cefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff, gan gynnwys staff cyflenwi
- gwneud yn siŵr bod staff yn deall sut mae absenoldeb yn effeithio ar ddysgwyr.

Mae hyn yn helpu ysgolion i gymryd y camau iawn pan mae staff yn absennol, ac edrych ar ffyrdd i gefnogi iechyd a llesiant staff.



## Paratoi ar gyfer absenoldebau

Mae'n rhaid i ysgolion ddod o hyd i'r staff llanw iawn ar gyfer y sefyllfa iawn pan mae athrawon yn absennol. Dylid cysylltu hyn â blaenoriaethau y manylir arnyn nhw yn y **Cynllun Datblygu Ysgol**.

Dylai trefniadau llanw ganolbwyntio ar y gwersi sy'n cael eu haddysgu. Fe ddylen nhw wneud yn siŵr bod yr addysgu a'r dysgu'n parhau ac yn cefnogi cynnydd dysgwyr.

### **Ni chaiff UNRHYW berson gwblhau gwaith penodedig athro ysgol cymwysedig oni bai ei fod wedi cymhwyso ac wedi'i gofrestru i wneud hynny.**

Mae Atodlen 3 Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 yn esbonio ystyr gwaith penodedig.

Mae'n rhaid i bob athro, gan gynnwys athrawon cyflenwi, fod wedi cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg fel 'athro neu athrawes ysgol'.

Rhaid cwblhau'r holl wiriadau perthnasol cyn i unrhyw addysgu ddechrau.

Mae'r ysgol yn gyfrifol am roi hyfforddiant cynefino â'r ysgol i'r holl staff cyflenwi.



## Dod o hyd i staff llanw

Yr ysgolion sy'n penderfynu pa staff llanw sydd eu hangen arnyn nhw a sut y maen nhw'n dod o hyd i'r staff llanw. Dylai athrawon cyflenwi ddisgwyl addysgu yn hytrach na dim ond goruchwyllo dosbarth.

Dan reolau prin gyflenwi, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid defnyddio athrawon y mae'r ysgol eisoes yn eu cyflogi i gymryd dosbarthiadau cydweithwyr sy'n absennol, oni bai mai dyna y maen nhw wedi'u cyflogi'n benodol i'w wneud.

Nid yw gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgol, gan gynnwys goruchwylwyr llanw a CALU, yn athrawon cymwysedig. Rhaid peidio â'u defnyddio i gyflawni rôl athro cymwysedig. Dylai ysgolion wneud yn siŵr mai dim ond dyletswyddau a chyfrifoldebau y mae eu datganiad cyflogaeth a'u swydd-ddisgrifiad yn manylu arnyn nhw y maen nhw'n eu gwneud. Mae treulio amser i ffwrdd o'u rôl arferol yn gallu amharu ar ddsygu.

### **Absenoldeb prifathro**

Fel rheol, pan fydd y Prifathro'n absennol fe fydd y Dirprwy Brifathro'n gwneud y rôl.

Mae angen i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol gydweithio i gynllunio trefniadau llanw. Mae'n rhaid iddyn nhw gefnogi'r Prifathro dros dro. Dylai'r awdurdod lleol gadw mewn cysylltiad agos â chadeirydd y llywodraethwyr a'r Prifathro dros dro yn ystod y cyfnod llanw am absenoldeb.

## Dod o hyd i staff llanw, parhad...

### Gall ysgolion:

#### → Gyflogi athro cyflenwi'n uniongyrchol.

Os yw'r ysgol yn cyflogi athro cyflenwi'n uniongyrchol mae'n rhaid iddi gwblhau pob gwiriad cyflogwr a'i dalu. Rhaid i hyn fod yn unol â Dogfen cyflog ac amodau athrawon ysgol (Cymru), fel yn achos unrhyw aelod arall o staff.

#### → Defnyddio athro symudol.

Gall yr ysgol benderfynu cyflogi athro symudol neu ychwanegol. Fe fydd hyn yn helpu â pharhad i ddisgyblion. Mae hefyd yn helpu i reoli trefniadau llanw ar gyfer absenoldebau wedi'u cynllunio ac yn caniatáu i'r athro rheolaidd gynllunio a thrafod gwersi â nhw.

#### → Gweithio gydag ysgolion eraill.

Gall ysgolion ddewis cydweithio i rannu cost trefniadau llanw ar gyfer absenoldeb. Gallan nhw gyflogi aelod cymwysedig a phriodol o staff i weithio ar draws grŵp o ysgolion. Fel rheol, ysgol arweiniol fyddai'n eu cyflogi. Fe fyddai cytundeb ar waith i wneud yn siŵr eu bod nhw ar gael i weithio ar draws yr ysgolion yn ôl y galw.

#### → Defnyddio asiantaeth gyflenwi fasnachol.

Gall ysgolion gael athrawon cyflenwi trwy asiantaeth gyflenwi fasnachol. Yna mae'r contract rhwng yr ysgol a'r asiantaeth gyflenwi fasnachol. Yr asiantaeth gyflenwi fasnachol yw'r cyflogwr ac mae'n rhaid iddi gwblhau'r holl wiriadau cyflogwr, a gwiriadau o ran cymwysterau, cofrestriad a diogelu. Dylid rhannu hyn â'r ysgol.

Yn 2019, fe ddyfarnodd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, ar ran Awdurdodau Lleol Cymru, ddarpariaeth gwasanaeth wedi'i reoli i 27 o asiantaethau cyflenwi masnachol i gyflenwi gweithwyr gwasanaeth asiantaeth. Os y bydd ysgol eisiau comisiynu athrawon cyflenwi trwy asiantaeth, yna fe ddylen nhw ddefnyddio asiantaeth fframwaith.



## Monitro absenoldeb

Gall athrawon fod i ffwrdd o'r gwaith am wahanol resymau ar adegau gwahanol.

Mae'r Polisi Presenoldeb yn dweud wrth staff sut y bydd absenoldeb yn cael ei reoli. Fe ddylai:

- ddweud sut y bydd absenoldeb tymor byr a thymor hir yn cael ei fonitro a'i reoli
- bod â gwybodaeth am gyfweiliadau dychwelyd i'r gwaith
- esbonio pa gymorth sydd ar gael.

Mae ysgolion eisiau gofalu am lesiant eu holl staff. Mae monitro absenoldeb yn dangos:

- a oes yna batrwm
- a yw absenoldebau'n digwydd ar adegau mwy llethol o'r flwyddyn
- a oes angen i'r ysgol adolygu unrhyw bolisiau neu weithdrefnau.

**I gael rhagor o wybodaeth am absenoldeb y gweithlu, gwelwch adran 1 o'r canllawiau llawn.**

# Rolau a chyfrifoldebau

Mae'n bwysig bod pawb yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau am reoli absenoldeb a llesiant staff.

Mae angen rheoli absenoldeb a dod o hyd i'r staff llanw iawn fel nad yw'n effeithio'n negyddol ar ddeilliannau dysgwyr.

## Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi.

Mae'n bwysig wrth reoli absenoldeb a staff bod pawb yn dilyn y Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi. Mae'r cod yn canolbwyntio ar wneud yn siŵr y gwarantir arferion ac amodau cyflogaeth da i weithwyr yn y gwasanaethau cyhoeddus. Mae disgwyl i ysgolion ac asiantaethau cyflenwi masnachol ddilyn y cod.

## Llywodraeth Cymru

Rydyn ni'n gyfrifol am yr holl addysg ledled Cymru. Rydym ni'n gwneud pethau fel:

- gosod cyfeiriad strategol i ysgolion trwy reoleiddio a thrwy ganllawiau, polisiau ac adnoddau ar-lein i wella addysg a chefnogi ein gweithlu
- ysgrifennu ac adolygu polisiau addysg a chyhoeddi canllawiau
- cael ymarferwyr i ddatblygu polisi ar gyfer y dyfodol a chwtdogi ar absenoldeb staff y mae modd ei osgoi
- cyhoeddi data am absenoldeb ar lefel awdurdod lleol
- gwirio a herio'r modd o reoli absenoldebau a'r cymorth sydd ar gael.



## Cyrff llywodraethu

Mae cyrff llywodraethu, ynghyd ag arweinwyr ysgolion, yn rhedeg ysgolion. Mae'n rhaid iddyn nhw:

- fod â digon o staff ysgol i ddiwallu anghenion yr ysgol
- gwneud yn siŵr bod y trefniadau llanw mwyaf priodol ar waith
- bod â pholisiau allweddol ar waith ynglŷn â rheoli absenoldeb a llwyth gwaith
- bod yn gyfrifol am fonitro costau ariannol
- cytuno ar y dulliau y mae'r ysgol yn eu defnyddio ar gyfer trefniadau llanw
- rheoli pethau pan mae'r Prifathro'n absennol
- gwneud yn siŵr bod y Prifathro'n dilyn arferion recriwtio diogel ar gyfer pob gweithiwr, gan gynnwys gweithwyr dros dro
- cael adroddiadau ar bresenoldeb staff ac ystyried effaith absenoldeb o'r ystafell ddosbarth
- gwneud yn siŵr bod y Prifathro'n rheoli presenoldeb staff
- ceisio cyngor a chymorth adnoddau dynol oddi wrth eu hawdurdod lleol fel bo'n briodol
- gwneud yn siŵr bod y Prifathro'n cael cyngor a chymorth adnoddau dynol pan fo angen hynny
- gwneud yn siŵr bod arferion gweithio iach ar waith fel bod staff yn gallu cael cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith
- dilyn rheolau'r Dogfen cyflog ac amodau athrawon ysgol (Cymru), Rheoliadau Amser Gwaith a rheoliadau gweithwyr asiantaeth.

Mae gan rai ysgolion llywodraethwr sydd wedi'i ddynodi i fod yn gyfrifol am absenoldeb staff. Mae yna amrywiaeth dda o gyhoeddiadau i gynorthwyo llywodraethwyr i'w gweld yn [llyw.cymru/rolau-a-chyfrifoldebau-llywodraethwyr-ysgol](http://llyw.cymru/rolau-a-chyfrifoldebau-llywodraethwyr-ysgol)

## Prifathrawon

Mae'r Prifathro'n arwain yr ysgol ac yn gwneud penderfyniadau. Mae'n rhaid iddyn nhw:

- ddefnyddio polisiau a gweithdrefnau'r ysgol a'r awdurdod lleol
- adrodd ar bresenoldeb staff i'r corff llywodraethu a sicrhau bod yr holl staff yn dilyn polisiau rheoli absenoldeb yr ysgol
- cymryd rhan mewn hyfforddiant ynglŷn â rheoli absenoldebau
- gosod targedau presenoldeb, gan ddefnyddio data o'u hysgol nhw ac ysgolion tebyg eraill
- gweithio gyda'r darparwr adnoddau dynol (sef yr awdurdod lleol yn y rhan fwyaf o achosion) i adolygu data salwch fel eu bod nhw'n gallu gwneud penderfyniadau deallus
- hybu gweithgareddau i gefnogi staff
- dilyn rheolau Dogfen cyflog ac amodau athrawon ysgol (Cymru) a'r Rheoliadau Amser Gwaith
- creu cyfleoedd i staff drafod unrhyw beth sy'n effeithio ar eu hiechyd neu eu llesiant
- dilyn Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 ynglŷn â phwy sy'n cael gwneud gwaith llanw
- gwneud yn siŵr bod unrhyw un sy'n gwneud gwaith llanw'n cael y cymorth a'r wybodaeth sydd eu hangen arnyn nhw
- gwirio a monitro costau ac ansawdd gwaith llanw, yn enwedig pan ddefnyddir asiantaeth fasnachol.



## Mae yna opsiynau amrywiol i brifathrawon ddod o hyd i staff llanw.

Gall ysgolion gyflogi athrawon cyflenwi'n uniongyrchol. Gallan nhw hefyd ddefnyddio rhestrau staff cyflenwi'r awdurdod lleol os yw'r rhain yn bodoli, neu ddefnyddio asiantaeth gyflenwi fasnachol.

Wrth ddefnyddio asiantaethau cyflenwi masnachol, dylai prifathrawon sicrhau bod egwyddorion y Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi'n cael eu mabwysiadu ac ystyried fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

Os defnyddir gwasanaeth paru seiliedig ar ap, dylai prifathrawon fod yn ymwybodol mai'r ysgol fydd fel rheol yn dod yn gyflogwr ac y bydd angen cwblhau gwiriadau perthnasol.

Mae'n rhaid i'r Prifathro:

- fod â'r holl wybodaeth a dogfennau angenrheidiol
- bod â'r holl wiriadau iawn a geirdaon
- gwirio bod yr athro cyflenwi wedi cofrestru a'i fod â Statws Athro Cymwysedig.

## Gweithlu'r ysgol

Mae gan bawb sy'n gweithio mewn ysgol ddyletswydd i ofalu am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Mae'n rhaid iddyn nhw:

- ddilyn polisi Rheoli Presenoldeb yr ysgol
- gwneud yn siŵr bod unrhyw ddysgu proffesiynol yn gweddu i nodau'r ysgol
- ystyried effaith absenoldeb wedi'i gynllunio trwy wneud yn siŵr bod trefniadau'n cefnogi cynnydd dysgwyr
- trafod â'r Prifathro unrhyw beth sy'n effeithio ar iechyd a llesiant
- cymryd rhan mewn cyfweiliadau dychwelyd i'r gwaith.

## Yr awdurdod lleol

Yr awdurdod lleol yw'r cyflogwr cyfreithiol cyffredinol ar gyfer y mwyafrif o weithwyr ysgol. Yr ysgolion sy'n gyfrifol am reoli staff. Dylai awdurdodau lleol:

- fod â pholisïau a gweithdrefnau cyflogaeth ar gyfer staff sy'n gweithio mewn ysgolion
- rhoi cymorth, cyngor a gwybodaeth i'r ysgol am faterion caffael, adnoddau dynol a chyllid os yw ysgolion yn gofyn am hyn
- casglu a gwirio gwybodaeth am absenoldeb
- gwirio trefniadau ar gyfer rheoli cyllidebau staff llanw
- gwneud yn siŵr bod llywodraethwyr a phrifathrawon yn gwybod eu cyfrifoldebau am lesiant staff.

## Y Consortia Addysg Rhanbarthol (EAS, ERW, CSC a GWE)

Mae consortia rhanbarthol yn gweithio i wella ysgolion trwy ddarparu cymorth, herio perfformiad a chodi safonau. Mae ganddyn nhw gyfrifoldeb am:

- ystyried effaith trefniadau llanw, a risgiau o ran ansawdd dysgu, ar nodau gwella'r ysgol
- creu cyfleoedd i gefnogi athrawon cyflenwi i ddatblygu
- darparu hyfforddiant, yn enwedig i athrawon cyflenwi, yn ystod gwyliau'r ysgol, penwythnosau neu nosweithiau
- gwneud yn siŵr eu bod nhw'n herio absenoldeb staff ac yn nodi effeithiau ar berfformiad yr ysgol.





## Asiantaethau cyflenwi masnachol

Mae'r cwmnïau hyn yn darparu staff dros dro i ysgolion ar gyfer rôl benodol neu am gyfnod penodol o amser. Yr asiantaethau hyn yw'r cyflogwr. Mae'n rhaid iddyn nhw:

- wneud y gwiriadau gofynnol:-
  - mynd ar drywydd geirdaon
  - gwirio bod eu hathrawon a'u gweithwyr cymorth dysgu wedi cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg
  - gwneud yn siŵr bod gan unrhyw athro a gynigir i ysgol Statws Athro Cymwysedig
  - gwneud yn siŵr bod yr unigolyn yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i wneud y rôl
- adolygu anghenion dysgu proffesiynol athrawon cyflenwi
- darparu gweithgareddau dysgu proffesiynol o ansawdd uchel
- gweithio gydag ysgolion a rhoi gwybodaeth i athrawon cyflenwi am yr ysgol a'r dosbarth y byddan nhw'n gofalu amdano
- esbonio unrhyw ddisgwyliadau a gofynion llanw yn glir i athrawon cyflenwi
- cyfarfod yn rheolaidd ag awdurdodau lleol ac ysgolion i drafod contractau a rhannu gwybodaeth.

**I gael rhagor o wybodaeth am gyfrifoldebau, gwelwch adran 2 o'r canllawiau llawn.**



## Sicrhau ansawdd

Mae'n bwysig bod dysgwyr yn gallu parhau i ddysgu a chyrraedd eu nodau. I helpu yn hyn o beth, mae gan ysgolion bolisiau a mesurau sicrhau ansawdd ar waith. Pa bynnag opsiwn y bydd ysgol yn ei ddewis i gael staff llanw, mae angen iddi ystyried y rhain wrth reoli absenoldeb staff.

Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr:

- bod pawb yn gwybod eu bod nhw'n gyfrifol am gadw dysgwyr yn ddiogel
- bod pawb yn dilyn y canllawiau 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel'
- bod gweithdrefnau recriwtio diogel a gwiriadau cofrestru'n cael eu cwblhau
- bod trefniadau llanw effeithiol yn cael eu rhoi ar waith
- bod yr holl staff yn cael cynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol
- bod perfformiad yr holl staff yn cael ei reoli'n briodol.

**I gael rhagor o wybodaeth am reoli perfformiad, gwelwch adran 3 o'r canllawiau llawn.**

## Diolch am ddarllen hwn

Gallwch chi ddarllen y canllawiau llawn yma:  
[lyw.cymru/presenoldeb-gweithlu-ysgolion-canllawiau](http://lyw.cymru/presenoldeb-gweithlu-ysgolion-canllawiau)

Mae yna hefyd gwestiynau hunanfyfrio yn Atodiad A y canllawiau llawn. Mae'r rhain yn helpu arweinwyr ysgol, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol i feddwl am sut y maen nhw'n rheoli absenoldeb staff, effaith hyn ar ddysgwyr, unrhyw gamau neu ffyrdd i wella trefniadau llanw a materion eraill.



© Hawlfraint y Goron 2019  
ISBN 978-1-78859-587-2

